| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **10 Gorffennaf,2018** |
| **TEITL:** | **Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 – sefyllfa Cyngor Gwynedd** |
| **AWDUR:** | **Rhion Glyn  Uwch Rheolwr Busnes** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Pwrpas yr adroddiad hwn yw adrodd ar y modd y mae'r Adran a'r Cyngor yn ymateb i ofynion 'Mwy na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019 ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.** |

## 1. Cefndir

1.1 Cyhoeddwyd "Mwy na Geiriau", sef y fframwaith strategol 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ar gyfer sicrhau gwasanaethau Cymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Yn ystod 2015 fe gynhaliwyd ymgynghoriad gan y Llywodraeth ar 'Mwy Na Geiriau - Fframwaith Strategol Olynol 2016-2019' a bu i'r Adran gyfrannu at y broses.

1.2 Ar y 22 Mawrth, 2016 lansiwyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r ddogfen hon yn ddilyniant i'r strategaeth wreiddiol ac yn seiliedig ar y **Cynnig Rhagweithiol** gan fod cydnabod ac yna ymateb i angen ieithyddol yr unigolyn yn elfen annatod o ofal.

1.3 Mae 7 Amcan i'r Strategaeth Olynol ar gyfer gweithredu erbyn 2019 :-

Amcan 1 - Arweinyddiaeth Leol, Genedlaethol a Pholisi Cenedlaethol

Amcan 2 –Mapio, Archwilio, Casglu Data ac Ymchwil

Amcan 3 –Cynllunio Gwasanaethau, Comisiynu, Contractio a Chynllunio'r Gweithlu

Amcan 4 - Hybu ac Ymgysylltu

Amcan 5 - Addysg Broffesiynol

Amcan 6 - Y Gymraeg yn y gweithle

Amcan 7 – Rheoleiddio ac Arolygu

1.4 Mae'r Fframwaith Strategaeth Olynol Mwy na Geiriau ar gael ar y wefan ar y cyfeiriad canlynol :-. https://gov.wales/docs/dhss/publications/160317morethanjustwordscy.pdf

ac fe adroddir ar ymateb yr Adran Oedolion a Phlant yn yr atodiad sy'n ynghlwm.

## 2. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

2.1 Croesewir arweiniad a sylwadau'r Pwyllgor ar yr wybodaeth a gyflwynir, a bydd y sylwadau hynny yn ddefnyddiol ar gyfer parhau gyda'r gwaith.